

Ailgylchu Gwasttraff Bwyd

Ar gyfer fy nyfodol...

rhoch gynnig arni!



AILGYLCHWCH EICH GWASTRAFF BWYD
Am gyfle i enmill talebau stryd fawr



Ydych chi'n ailgylchu'ch gwastraff bwyd?



Os **YDYCH** - yna diolch i chi am helpu i wneud ein hardal yn lanach a gwyrddach.

Rydych chi'n un o tua 50% o gartrefi ym mwrdeistref sirol Caerffili sy'n cymryd rhan yn y cynllun casglu gwastraff bwyd wythnosol. Rydych chi'n ein helpu i ddod yn ardal hyd yn oed yn lanach a gwyrddach.

Os **NAD YDYCH** - yna mae angen eich help arnom!

Rydym eisoes yn un o'r ardaloedd uchaf yng Nghymru ar gyfer ailgylchu. Ond ar gyfer dyfodol ein plant - a dyfodol eu plant - mae angen i ni wneud hyd yn oed yn fwy.

Beth all fynd i mewn i'r bin gwastraff bwyd?



Ffrwythau



Llysiau



Crwyn



Bara



Gwastraff bwyd



Pysgod



Plisg wyau



Cig



Bwyd sydd allan o'i ddyddiad



Esgyrn



Bwyd anifeiliaid anwes



Bagiau te



Yr ateb yw - bron pob math o fwyd!

Ffrwythau, llysiau, hen fara, bagiau te, plisg wyau, cig a physgod sydd dros ben - byddwn yn eu cymryd i gyd. Hyd yn oed bwyd anifeiliaid anwes, **cynhyrchion llaeth, reis, pasta, grawnfwydydd, esgyrn** a bwydydd eraill sydd dros ben... gallant i gyd fynd i'r bin gwastraff bwyd!



Ymddiheuriadau, ond ni allwn dderbyn...

Pacedi o unrhyw fath

Hylifau fel llaeth

Olew fel olew sydd wedi'i ddefnyddio i goginio
Unrhyw ddefnydd sydd ddim yn wastraff bwyd

Mae ailgylchu eich gwastraff bwyd mor hawdd i'w wneud!

Dylai pob cartref gael dau gynhwysydd ar gyfer gwastraff bwyd; cadu bach i gadw yn y gegin a chadi mwy i gadw tu allan.



Os nad oes un gennyh - gallwch ofyn am un AM DDIM.

Leiniwch eich cadu gyda leinin compostio neu bapur newydd. Gallwch chi hyd yn oed roi'r gwastraff bwyd yn syth i'r bin gwastraff bwyd.

Pryd bynnag mae angen i chi wagio'ch cadu cegin, clymwch frig y leinin neu lapiwch y papur newydd a'i roi yn eich bin gwastraff bwyd allanol.

Cofiwch... mae gan eich bin gwastraff bwyd handlen clodwy



1 Crafwch wastraff bwyd o'r plât i ddarn dwbl o bapur newydd.

2 Rhowch y parcel papur wedi'i blygu yn y cadu bychan.

3 Pan ei fod yn llawn, gwagiwch y cadu bychan i'r cadu mawr.

Myth Ailgylchu

Mae fy mam yn dweud na fydd hi'n ailgylchu gwastraff bwyd oherwydd ei bod hi'n meddwl ei fod yn ddrewllyd

Myth wedi'i chwalu!

Mae gwastraff bwyd yn cael ei gasglu bob wythnos... mae'n well rhoi gwastraff bwyd allan i'w ailgylchu bob wythnos. Fel arall, bydd yn eistedd yn y bin gwastraff cyffredinol am bythefnos tan y casgliad nesaf. Nawr, mae hynny'n ddrewllyd!



Ble mae ein gwastraff bwyd yn mynd?

Cymerir gwastraff bwyd bwrdeistref sirol Caerffili ar gyfer proses o'r enw **Treulio Anaerobig** sy'n golygu bod ein gwastraff bwyd yn cael ei droi'n ffynhonnell o ynni adnewyddadwy.

Gellir allforio hyd at 90% o'r ynni a gynhyrchir gan y broses i'r grid cenedlaethol neu ei ddefnyddio'n lleol. Yn ogystal â'r ynni a gynhyrchir, mae ein gwastraff bwyd yn cael ei droi'n gynhyrchion gwerthfawr, gan gynnwys compost a gwrtait hylif. Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio ein gwastraff bwyd er budd cartrefi a busnesau lleol.



Pam ddylwn i helpu?

Rydym yn gwneud yn dda iawn ond mae angen inni wneud hyd yn oed yn well. Er mwyn cydnabod ymdrechion ardderchog y rhai sy'n ailgylchu eu gwastraff bwyd, byddwn yn darparu gwobrau i'r rhai sy'n gwneud eu rhan.

"Yma i ennill"



Eleni rydyn yn cynnig gwobrau i drigolion sy'n cyfranogi i'r gwasanaeth casgliadau gwastraff cadid bwyd. Bydd talebau stryd fawr yn cael eu dosbarthu i'r enillwyr lwcus drwy gydol yr ymgyrch hwn. Mae pob taleb wedi eu noddi gan fusnesau lleol.

Os nad ydych eisoes yn ailgylchu gwastraff bwyd, rhowch gynnig arni!

Gallwch ofyn am gadi gwastraff bwyd **AM DDIM** a gwirio eich dyddiad casglu gwastraff bwyd drwy ymweld â'n gwefan www.caerffili.gov.uk neu drwy alw'r tîm ar 01443 866533.

WWW.CAERFFILI.GOV.UK

01443 866533

**AILGYLCHWCH EICH
GWASTRAFF BWYD**
Am gyfle i ennill
talebau stryd
fawr

